CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Y COMISIWN DIGARTREFEDD

# ADRODDIAD I'R GWEINIDOG DROS GYLLID, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU

AWST 2001

# RHAGAIR

Datganiad gan Mr Peter Black AC

Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol

Cadeirydd y Comisiwn Digartrefedd

Mae ar bawb angen cartref lle mae'n ddiogel a chysurus. Mae tai addas yn angenrheidiol i hapusrwydd pobl a'u gallu i gyflawni eu potensial. Yn y cyd-destun hwn, digartrefedd yw'r ffurf fwyaf difrifol ar amddifadedd cymdeithasol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â digartrefedd fel rhan o'i strategaeth i geisio datrys anfantais gymdeithasol, yn unol â'r hyn a nodwyd yn Gwell Cymru.com. Sefydlwyd y Comisiwn Digartrefedd yn Ionawr 2001, gyda'r dasg o gynghori'r Cynulliad ar y mesurau y dylid eu cyflwyno i leihau digartrefedd.

Gofynnwyd i'r Comisiwn roi adroddiad i'r Cynulliad erbyn yr Hydref 2001. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r targed hwnnw ac yn cynrychioli ymdrech glodwiw gan bawb a gymerodd ran. Rydym wedi ceisio edrych ar ystod eang o faterion perthynol i ddigartrefedd, ei achosion a'i ganlyniadau, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef yn hollgynhwysfawr trwy Gymru benbaladr.

Mae ystod y materion a dderbyniodd sylw wedi amlygu ac ailgadarnhau'r farn na ellir edrych ar ddigartrefedd o fewn cylch gorchwyl cul maes tai, na hyd yn oed tai a chefnogaeth. I lawer o bobl sy'n dioddef digartrefedd, mae achosion a chanlyniadau dwfn eu gwreiddiau ac o fathau amrywiol. Ceisiodd y Comisiwn adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon yn ei drafodaethau a'i ganfyddiadau.

Mae i'r angen hwn i ystyried amryfal wasanaethau yn arwain at oblygiadau sylweddol i wasanaethau lleol a chenedlaethol. Mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol a gwasanaethau statudol a gwirfoddol yn lleol gydweithio'n llawer mwy clòs i ddarparu'r cymorth "cydlynol" i bobl, y dylid ei roi ar yr adeg iawn yn y lle iawn.

Efallai y bydd angen i gyrff statudol edrych yn fanylach ar y modd y maent yn dyrannu arian ac adnoddau eraill mewn perthynas â digartrefedd. Gellir sicrhau gwelliannau sylweddol mewn iechyd a llai o gyfranogiad gan yr heddlu, y carchardai neu'r gwasanaethau cymdeithasol os cyflwynir y mathau iawn o wasanaethau o ansawdd uchel i bobl ddigartref. Mae dulliau cydlynol o ymdrin â digartrefedd yn cynnwys sianelu arian, amser staff ac adnoddau eraill i atebion, a gallant arwain at arbedion tymor hir i'r gwasanaethau hynny a gwasanaethau eraill.

Ond mae'n rhaid i ni wneud mwy na dim ond ymdrin â'r broblem. Os ydym am wneud ymdrechion gwirioneddol i sicrhau llai o ddigartrefedd, bydd angen i ni gynyddu ein hymdrechion i'w atal. Mae hyn yn cynnwys yr agweddau mwyaf amlwg sef darparu cyngor a gwybodaeth da yn rhad ac am ddim, cynlluniau gwarantu bondiau a chefnogaeth i helpu pobl i ddal i fyw yn y tai sydd ganddynt. Rhaid i ni hefyd weithio er mwyn rhoi sylw i'r achosion sydd y tu ôl i ddigartrefedd. Er enghraifft, dylid gweld llai o ddigartrefedd ac eithrio cymdeithasol os ceir cefnogaeth i ddatblygu sgiliau da wrth fagu plant, perthynasau diogel, cyflawniad addysgol da a ffyrdd i gael hyfforddiant a swyddi.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â gwaith y Comisiwn – y rhai a gyfrannodd, yr ysgrifenyddiaeth ac yn fwyaf arbennig fy nghyd-Gomisiynwyr. Rwy'n sicr y bydd canlyniadau ein gwaith yn darparu llwyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau hir eu parhad i'r bobl hynny sydd mor anffodus â bod yn ddigartref neu sy'n gorfod cysgu allan ar ein strydoedd.

# Cynnwys

_

Rhagair – Cadeirydd y Comisiwn, Peter Black AC

1. Cylch Gorchwyl - Tudalennau 2 - 5
2. Aelodaeth - Tudalen 6
3. Hanes Gwaith y Comisiwn - Tudalennau 7 - 11

4. Argymhellion - Tudalennau 12 - 31

Atodiad 1 - Adroddiad gan Dr Elaine Mullan

Atodiad 2 – Adroddiad ar y dulliau o gofnodi faint sy'n cysgu ar y stryd

Atodiad 3 – Crynodeb o’r arian a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i

brosiectau digartrefedd

Atodiad 4 - Argymhellion a sylwadau "Cysgu ar y Stryd yng Nghymru"

Atodiad 5 - Argymhellion a sylwadau "Tasglu 4"

Atodiad 6 – Ffurflen WHO12 ddiwygiedig – monitro digartrefedd statudol

Atodiad 7 – Cyfarwyddyd drafft ar strategaethau digartrefedd lleol

Atodiad 8 – Crynodeb gweithredol o’r adolygiad ar eithrio o dai cymdeithasol

Atodiad 9 – Crynodeb gweithredol o archwiliad cynghori ar dai yng Nghymru

Atodiad 10 – Gorchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

Atodiad 11 - Gorchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 – Cyfarwyddyd Dros Dro

## 1. Cylch gorchwyl

Bydd y Comisiwn yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") ar:

a. Cyflawni amcanion "Gwell Cymru" (gwellcymru.com) sef sicrhau (erbyn 2003) "bod llai na 500 o deuluoedd digartref yn byw mewn llety dros dro", "dileu’r angen am gysgu allan" a "gwella mynediad i wasanaethau iechyd i bobl sy’n cysgu allan a’r digartref."

Ymateb:

- Dylid diwygio’r amcan cyntaf i ddarllen "..nifer yr aelwydydd a osodwyd gan awdurdodau lleol mewn llety dros dro am fwy na 6 mis…";

- Mae’r ail amcan yn derbyn sylw drwy’r Cyfarwyddyd Drafft ar Strategaethau Digartrefedd Lleol (Atodiad 7), ond ceir argymhellion ar gyfer ei adolygu yn Adroddiad y Comisiwn Digartrefedd ("yr Adroddiad");

- Bydd y trydydd amcan yn derbyn sylw trwy gyfrwng argymhellion i’r Cynulliad Cenedlaethol yn yr Adroddiad.

a. Mynd ymhellach gyda’r argymhellion i’r Cynulliad Cenedlaethol yn yr adroddiad "Cysgu ar y Stryd yng Nghymru" ac argymhellion y Tasgluoedd Strategaeth Dai mewn perthynas â digartrefedd a chysgu ar y stryd.

Ymateb:

- Cafodd yr argymhellion yn adroddiad Bevan "Cysgu ar y Stryd yng Nghymru" eu hystyried gan y Comisiwn ar 11 Mehefin 2001 ac mae ymatebion y Comisiwn i’w gweld yma yn yr atodiadau (Atodiad 4);

- Cafodd argymhellion y Tasgluoedd Strategaeth Dai mewn perthynas â digartrefedd a chysgu ar y stryd eu hystyried gan y Comisiwn ar 11 Mehefin 2001 ac mae ymatebion y Comisiwn i’w gweld yma yn yr atodiadau (Atodiad 5).

a. Rhoi ar waith strategaethau lleol ar ddigartrefedd yn holl awdurdodau lleol Cymru.

Ymateb:

- Mae’r Comisiwn wedi paratoi Cyfarwyddyd Drafft ar Strategaethau Digartrefedd Lleol sy’n ffurfio rhan o’r Adroddiad (Atodiad 7).

ch) Nodi targedau a chanlyniadau.

Ymateb:

- Ystyriwyd hyn gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2001 ac mae'n derbyn sylw yn yr argymhellion isod.

a. Mesur digartrefedd a chysgu ar y stryd – ac edrych i mewn i'r methodolegau a arddelwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer cyfrif faint oedd yn cysgu ar y stryd ar noson y cyfrifiad yn 2001.

Ymateb:

- Cafodd hyn sylw mewn adroddiad i'r Comisiwn ar 11 Mehefin 2001 ac mae'n cael sylw yn yr argymhellion isod.

a. Yr opsiynau ar gyfer ariannu gwasanaethau i'r digartref yn y tymor hir yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â "Cefnogi Pobl".

Ymateb:

- Mae'r gwaith ymgynghori'n cael ei wneud ar "Cefnogi Pobl" ac mae'r Adroddiad yn cynnwys argymhelliad ar oblygiadau ariannu.

## Tasgau:

a. Mapio'r wybodaeth bresennol am ddigartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru, a'r ddarpariaeth sy'n bodoli ac a gynllunnir, a gweld lle ceir bylchau a gorgyffwrdd.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn adroddiad gan Dr Elaine Mullan yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2001 (Atodiad 1). Mae'r Comisiwn wedi argymell i'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid creu cronfa ddata ganolog i ddangos y ddarpariaeth bresennol.

a. Dyfeisio methodoleg gyffredin ar gyfer cyfrif faint o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn adroddiad ar y mater hwn yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2001 ac mae'n derbyn sylw yn yr argymhellion isod.

a. Ystyried diffiniadau o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd a chynnig diffiniadau ar gyfer Cymru.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn y mater hwn yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2001 ac fe gynhwysir diffiniadau yn yr Adroddiad.

ch) Ystyried sut i fonitro digartrefedd ym mhob rhan o Gymru.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn y mater hwn yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2001 ac mae'n derbyn sylw yn yr argymhellion isod.

a. Ystyried targedau (ac ymarferoldeb targedau) a chanlyniadau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn y mater hwn yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2001 ac mae'n derbyn sylw yn yr argymhellion isod.

a. Adolygu ac arfarnu'r arferion gorau wrth fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y

stryd, a chyhoeddi’r adolygiad ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ymateb:

- Ystyriodd y Comisiwn y mater hwn mewn adroddiad gan Dr Elaine Mullan mewn cyfarfod o’r Comisiwn ar 14 Mai 2001 (Atodiad 1), ac mae’n derbyn sylw yn yr argymhellion isod.

a. Datblygu model o strategaeth digartrefedd ar gyfer awdurdodau lleol.

Ymateb:

- Cytunodd y Comisiwn ar Gyfarwyddyd Drafft ar Strategaethau Digartrefedd Lleol (Atodiad 7) – mae hwn yn ffurfio rhan o’r Adroddiad.

## 1. Aelodaeth

-

Aelodau’r Comisiwn yw:

- Peter Black AC, - Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol (Cadeirydd)
- Gwenda Thomas AC - Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

- Kirsty Williams AC - Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Paul Bevan - Gweithredu dros Bobl Sengl Ddigartref yng Nghasnewydd ("NASH") - (Ymgynghorydd i'r Comisiwn)
- Libby Burn - Gweithredu dros Bobl Sengl Ddigartref yn Sir Benfro ("PASH")
- Steve Gamgee - Cymuned Wallich Clifford
- Angela Hoare - Barnardos Cymru
- Paul McHugh - Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Mutale Nyoni - Cymdeithas Menywod Du yn Camu Allan ("BAWSO")
- Bridget Price - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- John Puzey - Shelter Cymru
- Phil Roberts - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Malcolm Russell - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Darparwyd yr ysgrifenyddiaeth gan Gangen Rheolaeth, y Digartref a Chynhaliaeth yng Nghyfarwyddiaeth Dai y Cynulliad Cenedlaethol.

1. **Hanes Gwaith y Comisiwn**

1. Sefydlwyd y Comisiwn yn Ionawr 2001 yn dilyn y "Cytundeb Partneriaeth", ac mae yn gr•p "tasg a chwblhau" y bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

   Cyfeirir uchod at ei amcanion a'i dasgau ac mae ei argymhellion i'w gweld yn yr adroddiad hwn.

   Arddelwyd polisi "llywodraeth agored" gan y Comisiwn ac mae aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd ac wedi derbyn copïau o'r papurau.

2. Cyfarfu'r Comisiwn ar:

- 10 Ionawr 2001 yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd;
- 26 Chwefror 2001 yn Siambr Cyngor Sir Powys, Llandrindod, Powys;
- 12 Mawrth 2001 yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd;
- 9 Ebrill 2001 yn Siambr Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe;
- 14th Mai 2001 yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd;
- 11 Mehefin 2001 yn Siambr Hywel Dda, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd;
- 2 Gorffennaf 2001 yn Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Penfro, Hwlffordd, Sir Benfro;
- 23 Gorffennaf 2001 yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd;
- 17 Awst 2001 yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd.

3. Cyfarfu aelodau'r Comisiwn â grwpiau defnyddwyr a phobl ddigartref ar :

- 9 Ebrill 2001 ym Mhrosiect Bays, Stryd Fawr, Abertawe – rheolir y prosiect hwn gan Barnardos Cymru ac mae'n delio â'r problemau sy'n wynebu pobl 16-21 oed;

- 11 Mehefin 2001 yn Nhy’n Rhodyn, Bangor, Gwynedd – prosiect a reolir gan CAIS yw hwn sef uned adsefydlu ar gyfer pobl fu’n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol;

- 11 Mehefin 2001 yn Hostel Pendinas, Bangor, Gwynedd – prosiect yw hwn a reolir gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru ac mae’n darparu llety i bobl sy’n ddigartref ac ar y strydoedd;

- 11 Mehefin 2001 ym mhrosiect GISDA ym Mangor – prosiect yw hwn sy’n delio â digartrefedd ymhlith pobl ifainc;

- 2 Gorffennaf 2001 yn y Gwasanaeth Prawf, Hwlffordd – cyfarfu’r Comisiwn â phump o gleientau Gweithredu dros Bobl Sengl Ddigartref yn Sir Benfro ("PASH") ac ag aelodau o’r Gwasanaeth Prawf. Roedd hyn yn gyfle i aelodau’r Comisiwn drafod y problemau sy’n gysylltiedig â digartrefedd mewn ardaloedd gwledig gyda phobl sydd â phrofiad personol o’r broblem hon;

- 2 Gorffennaf 2001 yn Furnace Banc, Caerfyrddin – hostel mynediad uniongyrchol yw hon a reolir gan Tai Trothwy.

3. Mae’r Comisiwn wedi derbyn tystiolaeth gan y bobl isod:

- 9 Ebrill 2001 - Mr Hugh Gardner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Dinas a Sir Abertawe yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd y Grwpiau Iechyd Lleol;

- 14 Mai 2001 – Mr Paul Howarth, cynrychiolydd o’r Adran dros Waith a Phensiynau (yr Adran Nawdd Cymdeithasol, gynt);

- 2 Gorffennaf 2001 – Mr Ian Fox, Rheolwr Rhanbarthol Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;

- 23 Gorffennaf 2001 – Dr Sarah Watkins (Uwch-Swyddog Iechyd), Mr John Sweeney (Cangen Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) a Mr Peter Meredith-Smith (Swyddog Nyrsio) – yn cynrychioli Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Ar 27 Chwefror 2001 gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol Orchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2001. Mae'r Gorchymyn, sydd yn ddilys ar gyfer Cymru yn unig, yn ehangu'r disgrifiadau o bobl sydd ag angen blaenoriaethol fel eu bod yn awr yn cynnwys hefyd:

- Rhywun sy'n gadael gofal neu sy'n wynebu perygl arbennig y bydd rhywun yn ymelwa arnynt yn rhywiol neu'n ariannol, 18 oed neu'n h•n ond dan 21 oed;
- Rhywun sy'n 16 neu'n 17 oed;
- Rhywun sy'n ffoi rhag trais, neu fygythiad o drais, yn y cartref;
- Rhywun sy'n ddigartref ar ôl dod o'r lluoedd arfog;
- Cyn-garcharor sy'n ddigartref ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa.

Bydd y Gorchymyn hwn yn cael effaith ar bobl sy'n hysbysu'r awdurdod lleol eu bod yn ddigartref.

Cafodd y Comisiwn gyfle i ystyried cynnwys y Cyfarwyddyd Dros Dro mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, sydd ynghlwm yma yn Atodiad 11.

3. Dywedodd y Pwyllgor Materion Cymreig, pan oedd yn eistedd yn ei sesiwn yn 1999-2000, fod gan Gymru dai o ansawdd gwael, sy'n cyfrannu at eithrio cymdeithasol. Derbyniodd y Pwyllgor mai cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol yw tai yng Nghymru, ond fe wnaeth rai sylwadau, gan ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol edrych ar y rhain. Roeddent yn cynnwys:-

- Pobl yn Gadael Gofal;
- Cynlluniau Bond; a
- Thrais yn y Cartref.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymorth i Fenywod yng Nghymru (a oedd yn cynnwys astudiaeth achos gan Gymdeithas Menywod Du yn Camu Allan, "BAWSO"). Yn dilyn yr Adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion y cyfeirir atynt yn

nes ymlaen yma.

3. Derbyniodd y Comisiwn Adroddiad ar yr Adolygiad o’r Defnydd o Eithriadau ac Arferion Cyfyngol wrth Ddyrannu Tai Cymdeithasol, a baratowyd gan Joy Kent. Mae’r Comisiwn wedi cadarnhau’r argymhellion o’r adroddiad hwn. Mae Crynodeb Gweithredol o’r adroddiad llawn i’w weld yn Atodiad 8.

8) Ystyriodd y Comisiwn yr Adroddiad Drafft ar Archwiliad Cynghori ar Dai yng Nghymru a baratowyd gan Bob Widdowson gyda Derek Manson Smith. Mae Crynodeb Gweithredol o’r adroddiad llawn a’i argymhellion i’w gael yn Atodiad 9.

9) Fe wnaeth Dr Elaine Mullan, uwch ymchwilydd gydag Is-adran Hybu Iechyd y Cynulliad Cenedlaethol, ymchwiliad i’r ymchwil a’r wybodaeth ynghylch digartrefedd yng Nghymru, dulliau o fynd i’r afael â digartrefedd a’i atal a chyfarwyddyd ar gyfer datblygu strategaethau digartrefedd. Mae argymhellion o’r adroddiad wedi’u cynnwys yma. Mae’r adroddiad llawn ynghlwm yma yn Atodiad 1.

10) Mae’r Comisiwn wedi neilltuo cryn lawer o amser ar gyfer paratoi Cyfarwyddyd Drafft ar Strategaethau Digartrefedd Lleol i awdurdodau lleol. Mae’r drafft terfynol ynghlwm yma yn Atodiad 7, ac mae’r Comisiwn o’r farn fod y ddogfen bwysig iawn hon yn cymryd i ystyriaeth y rhan fwyaf o argymhellion Adroddiad Bevan a’r argymhellion sy’n ymwneud â digartrefedd ymhlith argymhellion y Tasglu.

11) Derbyniodd y Comisiwn adroddiad gan Mr Henry Small, Ystadegydd yn y Cynulliad Cenedlaethol, ar fonitro digartrefedd. Dyfeisiodd Mr Small ffurflen ddiwygiedig – WHO12 – i’w hanfon at awdurdodau lleol er mwyn casglu gwybodaeth fanylach ar ddigartrefedd statudol. Roedd y Comisiwn o’r farn y dylid defnyddio’r ffurflen ddiwygiedig hon ac mae ynghlwm yma yn Atodiad 6.

12) Cyflwynodd Mr Paul Bevan, Ymgynghorydd i’r Comisiwn, adroddiad i’r Comisiwn ar fesur cysgu ar y stryd yng Nghymru, sydd ynghlwm yma yn Atodiad 2. Daeth y Comisiwn i’r casgliad ei bod yn amhosibl cyfrif yn fanwl gywir faint o bobl sy’n cysgu ar y stryd ond cytunodd mai’r Arolwg Cyfunol yw’r modd gorau a mwyaf priodol. Cynhwysir argymhelliad yn yr Adroddiad.

13) Cytunodd y Comisiwn ar ddiffiniad o "ddigartrefedd". Derbyniwyd yn unfrydol nad dim ond mater o "frics a morter" ydyw a bod angen ymdrin ag ef yn amlddisgyblaethol. Cytunwyd hefyd ar ddiffiniad o "gysgu ar y stryd", a chyfeirir at hyn yn nes ymlaen yma.

Gellid cynnwys y diffiniadau hyn yn y Cyfarwyddyd Strategaethau Digartrefedd Lleol a hefyd mewn cyd-destun polisi cyffredinol. Nid ydynt yn effeithio ar y diffiniad statudol y cyfeirir ato yn Adran 175 Deddf Tai 1996, a'r cyfrifoldebau cyfreithiol a ddaw yn sgîl hwnnw.

14) Ar 2 Gorffennaf 2001, clywodd y Comisiwn dystiolaeth gan Mr Ian Fox, Rheolwr Rhanbarthol Cymru yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cadarnhaodd Mr Fox fod y gwasanaeth yn cael trafferth gyda chwestiwn llety i gyn-droseddwyr a bod y maes hwn yn parhau i fod yn un o bryderon pennaf ei wasanaeth. Rhoddwyd ar ddeall i'r Comisiwn bod cyswllt cryf rhwng aildroseddu a bod yn ddigartref. Yn dilyn trafodaeth fanwl rhwng aelodau'r Comisiwn a Mr Fox, fe wnaeth y Comisiwn argymhellion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

15) Ar 23 Gorffennaf 2001, clywodd y Comisiwn dystiolaeth gan Dr Sarah Watkins, Uwch-Swyddog Iechyd, John Sweeney o'r Gangen Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Grwpiau Blaenoriaeth ac Afiechydon Cronig, a Peter Meredith-Smith, Is-adran Nyrsio. Rhoddodd John

Sweeney orolwg byr o bersbectif Is-adran y GIG ar ddigartrefedd a dywedodd fod digartrefedd yn effeithio ar bob rhan o waith yr Is-adran. Dywedwyd wrth y Comisiwn mai nod yr Is-adran oedd darparu gwasanaethau cyfartal i bobl ddigartref, gan gynnwys gofal cynradd a mynediad at driniaeth ar gyfer problemau cyffuriau ac alcohol. Yn dilyn cyhoeddi dogfennau allweddol yn ddiweddar e.e. gwellcymru.com a Chynllun Cenedlaethol y GIG yng Nghymru, a dogfen ymgynghorol newydd: Strwythur y GIG yng Nghymru, bydd yr Is-adran yn sicrhau bod pwysigrwydd digartrefedd yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynlluniau hyn.

Yna cafwyd trafodaeth fanwl iawn rhwng y tri chynrychiolydd a'r Comisiwn, a arweiniodd at yr argymhellion yn yr Adroddiad.

16) Teimlai'r Comisiwn y byddai'n anodd cyflawni'r targed isod, y cyfeirir ato yn gwellcymru.com, o fewn yr amserlen ddisgwyliedig:

"dileu'r angen am gysgu allan"

Daeth i'r casgliad y dylid diwygio'r targed, sef yr hyn a welir ar ffurf argymhelliad yn yr Adroddiad. Roedd y Comisiwn o'r farn na ellid cyflawni'r targed gwreiddiol oherwydd anawsterau gydag ariannu, cynllunio a seilwaith.

1. **Argymhellion**

## Diffiniadau

-

Un o brif dasgau'r Comisiwn oedd cytuno ar ddiffiniad o'r termau "digartrefedd" a "chysgu ar y stryd". Cytunwyd bod angen i'r diffiniadau sicrhau dehongliad cyffredin o'r anghenion yr edrychir arnynt ym mhob cyd-destun. O ran cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol, mae'r diffiniad cyfreithiol o "ddigartrefedd" (fel y'i diffinnir yn Neddf Tai 1996) yn ddilys.

Cynhwyswyd yr angen am ddiffiniadau hefyd yng Nghyfarwyddyd y Comisiwn ar Strategaethau Digartrefedd Lleol (Atodiad 7). I ddechrau, ystyriwyd yr angen am ddiffiniad eang, a fyddai'n cymryd i ystyriaeth yr holl wahanol sefyllfaoedd lle roedd pobl mewn tai anfoddhaol neu yn gallu mynd yn ddigartref. Cytunwyd y dylid cynnwys y sbectrwm ehangach hwn yn y cyflwyniad i'r Cyfarwyddyd, er mwyn gosod digartrefedd yng nghyd-destun ei achosion a'i effeithiau a'r angen i bobl gael tai lle byddai eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Cynigiodd y Comisiwn ddiffiniad mwy penodol ar gyfer y Cyfarwyddyd, yn canolbwyntio ar wir ddigartrefedd neu'r bygythiad o fod yn ddigartref.

Roedd yn haws cytuno ar ddiffiniad o "gysgu ar y stryd", lle gwnaed mân newidiadau i'r diffiniad a ddefnyddiwyd gan yr Uned Cysgwyr ar y Stryd yn Lloegr.

-

1. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol arddel y diffiniad isod o "ddigartrefedd":

   "Unrhyw un sydd heb lety neu lle nad yw'r ddaliadaeth yn sicr**"**

Dyma enghreifftiau o bobl sy'n cael eu disgrifio gan y diffiniad hwn:

Pobl ddigartref

- yn cysgu ar y stryd
- yn byw mewn tai ansicr/dros dro (heb gynnwys tenantiaid/byrddeiliaid si•r)
- yn byw mewn hosteli tymor byr, llochesau nos, hosteli mynediad uniongyrchol
- yn byw mewn lle gwely a brecwast

- yn symud yn aml rhwng tai perthnasau/ffrindiau

- sgwatio

- yn methu aros mewn llety, neu ddychwelyd iddo, oherwydd amodau gwael, tai yn orlawn, problemau gyda fforddio tai, trais yn y cartref, aflonyddu, cam-drin meddyliol, corfforol a/neu rywiol ayb.

Pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

- yn aros mewn ysbytai, dalfeydd yr heddlu, carchardai, sefydliadau eraill neu gynlluniau cefnogol ac sydd i fod i gael eu rhyddhau ond heb fod â llety
- y mae teulu/ffrindiau yn mynnu eu bod yn gadael
- yn wynebu achosion meddiannu, o fewn tri mis i ddiwedd tenantiaeth dymor byr/ gyfyngedig, neu fygythiad o gael eu troi allan yn anghyfreithlon
- yn gorfod gadael eu llety presennol oherwydd fod perthynas wedi torri i lawr

1. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol arddel y diffiniad isod o "gysgu ar y stryd":

   "Pobl yn cysgu, neu wedi gosod eu gwely, yn yr awyr agored; pobl mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt wedi eu cynllunio i bobl fyw ynddynt"

   Dyma rai enghreifftiau o lefydd a ddaw dan y diffiniad hwn:

   Pobl yn cysgu, neu wedi gosod eu gwely, yn yr awyr agored

- ar y strydoedd
- mewn drysau
- mewn parciau
- mewn cysgodfannau bysiau

   Pobl mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt wedi eu cynllunio i bobl fyw ynddynt

- ysguboriau
- siediau
- meysydd parcio

- ceir
- cychod adfeiliedig
- gorsafoedd
- sgwatiau
- pebyll
- cysgodfeydd dros dro

## Strategaethau Digartrefedd Lleol

Cynhaliwyd trafodaeth ar strategaethau digartrefedd lleol yng nghyd-destun cyflwyno'r "Mesur Digartrefedd", sef deddfwriaeth newydd sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau o ddigartrefedd a mabwysiadu strategaethau. Drafftio Cyfarwyddyd i greu'r strategaethau hyn oedd un o brif dasgau'r Comisiwn, ac roedd angen llawer o waith i adolygu a mireinio'r testun.

Credai'r Comisiwn fod i'r Cyfarwyddyd rôl hanfodol o ran llywio datblygiad strategaethau lleol i ddiwallu anghenion lleol yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol. Yn y testun arfaethedig (Atodiad 7) fe gymerwyd i ystyriaeth waith blaenorol a wnaed yn yr Alban ac yn Lloegr, ond atgyfnerthwyd hwnnw gyda phwyslais ar atal ac ar gydweithredu rhyngasiantaethol.

Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid anfon y ddogfen oedd wedi'i chymeradwyo at awdurdodau lleol er mwyn ymgynghori. Yna gellid cyhoeddi fersiwn terfynol fel rhan o'r Cod Cyfarwyddyd statudol ar ddigartrefedd, wedi i'r Mesur Digartrefedd ddod i rym.

1. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol anfon y Cyfarwyddyd Drafft ar Strategaethau Digartrefedd Lleol (Atodiad 7) at awdurdodau lleol er mwyn ymgynghori;

2. Dylai awdurdodau lleol baratoi strategaeth ddigartrefedd leol yn unol â'r Cyfarwyddyd y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi, sef yr hyn a grybwyllwyd yma yn Argymhelliad 3 uchod;

3. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fonitro'r sefyllfa i weld faint o gysondeb sydd wrth i awdurdodau lleol ddehongli a chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i fynd i'r afael â digartrefedd dan Ran VII, Deddf Tai 1996, a'r Mesur Digartrefedd sydd i ddod;

6. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol y dylent integreiddio'u strategaeth leol ar ddigartrefedd i'w cynllun cymunedol ehangach;

7. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benodi "Comisiwn Sefydlog" i gyfarwyddo a monitro

datblygiad strategaethau digartrefedd yng Nghymru.

## Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol i Gymru

Ystyriodd y Comisiwn yr angen i'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu strategaeth genedlaethol ar ddigartrefedd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar bapur gan Paul Bevan, ymgynghorydd i'r Comisiwn, a edrychai i mewn i swyddogaeth strategaeth genedlaethol. Cytunodd y Comisiwn fod angen strategaeth oedd yn cynnwys meysydd polisi allweddol megis atal, cefnogi, cydweithio, ariannu a strategaethau lleol ar ddigartrefedd. Teimlid y gallai'r weledigaeth strategol hon ddarparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu polisi

cenedlaethol, ariannu a thargedau yn ogystal â bod yn bwynt cyfeirio pwysig ar gyfer gweithredu yn lleol.

Cytunodd y Comisiwn y dylai'r strategaeth hon fod yn rhan o'r strategaeth genedlaethol ehangach ar gyfer tai.

8. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru, a ddylai fod yn rhan o'r Strategaeth Dai Genedlaethol ehangach i Gymru.

## Monitro a Mesur Digartrefedd

Cytunodd y Comisiwn ei bod yn bwysig monitro a mesur digartrefedd fel modd i ddeall natur a maint y broblem a llwyddiant y mesurau i fynd i'r afael â hi.

Derbyniodd adroddiad ar waith monitro ystadegol presennol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer digartrefedd statudol, a chytunodd ar gynigion i wella'r broses hon. Roedd yn bryderus am y dystiolaeth fod gwahaniaethau dybryd o ran sut y byddai gwahanol awdurdodau yn ymdrin ag unigolion digartref.

Cytunodd y Comisiwn hefyd ar Gyfarwyddyd arfaethedig ynghylch y dull dewisol o fesur faint sy'n cysgu ar y stryd. Er ei bod yn ddifrifol o anodd gwneud hyn yn fanwl o gwbl, y dull a ffafrid oedd cyfuniad o gael darlun ar adeg arbennig a phroses barhaus. Byddai hyn yn golygu arolygon allanol, cyfrifon ar adeg benodol a monitro cyffredin, parhaus ar draws asiantaethau ("yr Arolwg Cyfunol").

9. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol anfon y ffurflen WHO12 ddiwygiedig ar gyfer cael gwybodaeth ystadegol (Atodiad 6) at awdurdodau lleol er mwyn ymgynghori, gyda’r bwriad o roi hyn ar waith cyn gynted ag y bo’r modd. Bydd y ffurflen yn casglu gwybodaeth ychwanegol am nifer y bobl sy’n wynebu digartrefedd, gan gynnwys faint o bobl o leiafrifoedd ethnig sy’n ddigartref, a pham y mae pobl yn ddigartref;

10. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol annog asiantaethau, gan gynnwys asiantaethau gwirfoddol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i arddel dull yr Arolwg Cyfunol o gyfrif faint o bobl sy’n cysgu ar y stryd (Atodiad 2).

## Targedau a Chanlyniadau

Enwi targedau i’w hargymell oedd un o feysydd allweddol eraill y Comisiwn. Cafodd y Comisiwn broblemau yn hyn o beth, oherwydd anawsterau i fesur

faint sydd mewn gwirionedd yn ddigartref, ac am fod yr amgylchiadau sy’n gysylltiedig â digartrefedd mor anwadal a’i bod yn anodd rheoli’r holl wahanol ffactorau sy’n gyfrifol.

Cydnabyddid yr anawsterau oedd yn codi yn sgîl problemau cynllunio, ariannu a seilwaith gwasanaethau, a allai beri oedi wrth geisio cyflawni amcanion i fynd i’r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd.

Cefnogai’r Comisiwn y nod o ddileu’r angen am gysgu ar y stryd, ond roedd yn amau a fyddai modd cyflawni hyn erbyn 2003. Hyd yn oed gyda’r adnoddau oedd ar gael, ceid problemau ymarferol o ran gweld lle mae’r bylchau yn y ddarpariaeth a chreu prosiectau addas o fewn yr amserlen hon. Credid hefyd ei bod yn debygol na fyddai rhai o’r bobl sy’n cysgu ar y stryd yn manteisio ar y llety, a chydnabyddid, mewn ambell achos, y gall unigolion beri gormod o risg iddynt allu cael eu derbyn yn y llety sydd ar gael.

Cytunwyd bod angen i dargedau cenedlaethol ganolbwyntio ar fyrhau’r amser yr oedd yn rhaid i bobl fyw mewn llety dros dro ac ar roi strategaethau lleol ar waith i fynd i’r afael â digartrefedd.

11. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol newid y targed (y cyfeirir ato yn gwellcymru.com) fel a ganlyn:

"nifer y teuluoedd digartref a roddwyd gan awdurdodau lleol mewn llety dros dro am fwy

na chwe mis".

12. Mae’r Comisiwn yn cefnogi egwyddor yr amcan i ddileu’r angen i gysgu ar y stryd erbyn Ebrill 2003 ond mae’n credu na ellir gwneud hyn o fewn yr amserlen honno, ac mae’n argymell y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol adolygu’r amserlen yn seiliedig ar feincnodau realistig ar gyfer mesur cynnydd.

## Cynlluniau Bond

Cymeradwyodd y Comisiwn yr hyn a wneir eisoes i hyrwyddo cynlluniau bond ledled Cymru, a thynnodd sylw at yr angen i adolygu’r modd y cânt eu rheoli er mwyn hyrwyddo’r arferion gorau.

13. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol barhau i hyrwyddo a chefnogi datblygiad cadarnhaol Cynlluniau Gwarantu Bond yn lleol;

14. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol adolygu’r modd y rheolir Cynlluniau Gwarantu Bond sy’n bodoli eisoes er mwyn hyrwyddo arferion da;

15. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol adolygu effeithiolrwydd Banc Bond Gwarchodol Caerdydd, gan gorffori’r canfyddiadau maes o law yn y Cyfarwyddyd ar Strategaethau Digartrefedd Lleol.

## Polisïau Eithrio

Cyflwynodd Joy Kent adroddiad i'r Comisiwn yn adolygu'r arferion presennol mewn perthynas ag eithrio. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at ystod eang o bolisïau ac arferion, a oedd mewn llawer o achosion yn arwain at eithrio amhriodol a digartrefedd.

Credai'r Comisiwn fod hwn yn faes polisi pwysig oedd yn cael effaith uniongyrchol ar eithrio cymdeithasol a digartrefedd. Cymeradwyodd y Comisiwn adroddiad Kent, a gwnaeth nifer o argymhellion penodol yn y maes hwn.

16. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol yn dweud bod meddiannu eiddo gan ddefnyddio trefn fandadol yn erbyn Tenantiaid Cyflwyniadol mewn achosion o ôl-ddyledion rhent yn cael ei ystyried yn arfer gwael. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod ddilyn rhyw drefn arall i hel dyledion;

17. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud Offeryn Statudol, dan ddarpariaeth adran 129(3), Deddf Tai 1996, bod gan bob Tenant Cyflwyniadol sy'n wynebu achos meddiannu gan awdurdod lleol oherwydd ôl-ddyledion rhent hawl i wrandawiad llafar i adolygu'r penderfyniad i geisio meddiant, a chael cynrychiolaeth annibynnol mewn gwrandawiad o'r fath;

18. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol i fonitro ac arfarnu eu polisïau ar ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn rheolaidd;

19. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol annog awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau rhentu/ cofrestru preifat yn eu hardaloedd;

20. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig nad yw'r ffaith nad oes gan rywun digartref gyfeiriad parhaol yn rheswm dros beidio â'i gynnwys ar eu Cofrestr Dai/Rhestr Aros;

21. Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan Joy Kent yn ei hadroddiad: "Adolygiad o'r Defnydd o Eithrio ac Arferion Cyfyngol wrth

    Ddyrannu Tai Cymdeithasol" (Atodiad 8) ac mae'n argymell y dylid eu rhoi ar waith.

## Atal

Dyma oedd un o’r themâu allweddol yng ngwaith y Comisiwn, a ystyrid yn elfen hanfodol mewn strategaethau cenedlaethol a lleol. Canolbwyntiodd y Comisiwn yn arbennig ar yr angen i ddarparu ar gyfer pobl ifainc wybodaeth ynghylch sut i osgoi digartrefedd a’r angen am wasanaethau cynghori cynhwysfawr o ansawdd uchel ym maes tai. Ystyriodd y Comisiwn ganfyddiadau’r Archwiliad Gwasanaethau Cynghori ar Dai, a wnaed gan Bob Widdowson, a chymeradwyodd ei argymhellion.

Roedd y Comisiwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymyrryd i atal digartrefedd trwy asesu anghenion yn iawn a darparu cefnogaeth.

22. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol roi gwybod pa mor llesol yw cael cyngor annibynnol ar dai wrth geisio atal digartrefedd;

23. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gynnwys tai a digartrefedd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;

24. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu Llywodraeth y DG fod angen darparu cyngor ar dai a chyfarwyddyd a chefnogaeth i’r rhai sy’n dod o’r carchar, gofal tymor hir, ysbytai ac ysbytai seiciatrig fel na fyddant yn mynd yn ddigartref ac fel yr hyrwyddir ac yr adenillir cysylltiadau â’r gymuned, ac fel y byddant yn cael hyd i lety ac yn aros yno wedi iddynt gael eu rhyddhau;

25. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol annog awdurdodau heddlu i gynnal rhestr o hosteli yn perthyn i awdurdodau lleol a rhai gwirfoddol gyda mynediad uniongyrchol er mwyn cyfeirio pobl sydd angen llety mewn argyfwng;

26. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol annog landlordiaid cymdeithasol i ddarparu llety wedi’i ddodrefnu, lle bo hynny’n briodol;

27. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo gwasanaethau cynghori ar dai ledled Cymru er mwyn darparu gwasanaeth cynghori cynhwysfawr, cynaladwy ac annibynnol y tu hwnt i ddyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol;

28. Mae’r Comisiwn yn cymeradwyo’r argymhellion yn yr adroddiad gan Bob Widdowson ar y cyd â Derek Manson Smith: "Archwiliad Cynghori ar Dai yng Nghymru" yngl•n ag archwilio gwasanaethau cynghori ar dai yng Nghymru (Atodiad 9).

## Iechyd a Digartrefedd

Tynnwyd sylw at y cysylltiad rhwng iechyd a digartrefedd eisoes mewn gwaith blaenorol, ac un o dasgau allweddol y Comisiwn oedd gwneud argymhellion ynghylch sut y gallai pobl ddigartref gael gwell mynediad at wasanaethau iechyd cynradd.

Derbyniodd y Comisiwn nifer o adroddiadau ysgrifenedig a llafar ar y maes hwn. Roedd yn bryderus iawn fod bywyd pobl oedd yn cysgu ar y stryd yn debygol o fod yn fyr iawn, a bod cysylltiad cryf rhwng digartrefedd ac afiechyd. Cymeradwyodd y Comisiwn yn gryf y targed yn "Gwell Cymru.com" i wella’r mynediad at wasanaethau iechyd i’r rhai sy’n cysgu ar y stryd a’r digartref erbyn Mawrth 2003, a dymunai weld rhagor o dystiolaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y modd y rhoddid sylw i hyn.

Ystyriodd y Comisiwn dystiolaeth yngl•n â’r anawsterau a gaiff pobl ddigartref i gael mynediad at wasanaethau iechyd cynradd, a rhai mentrau arfer da a geisiai oresgyn y rhwystrau hyn. Hysbyswyd y Comisiwn am y cynllun nyrs-ymarferydd yng Nghaerdydd a oedd wedi llwyddo i godi lefelau cofrestru gyda Meddygon Teulu, yn ogystal â darparu ystod o wasanaethau iechyd eraill. Mae canolfannau galw heibio a cherdded i mewn hefyd yn gymorth i ofalu bod gwasanaethau iechyd o fewn cyrraedd rhwyddach i bobl ddigartref. Awgrymodd Cydffederasiwn y GIG mai ateb arall i broblem cofrestru fu caniatáu i bobl ddigartref gofrestru mainc mewn parc fel eu cyfeiriad swyddogol, er y teimlai’r Comisiwn fod hyn yn ymateb amhriodol ac y dylid addasu trefniadau gwasanaethau er mwyn galluogi pobl ddigartref i dderbyn gwasanaethau iechyd heb iddynt roi cyfeiriad.

Daethpwyd i’r casgliad fod angen i wasanaethau iechyd ganolbwyntio’n gliriach ar ofalu am y rhai sy’n ddigartref, a chydweithio’n well â gwasanaethau eraill. Mae’r argymhellion a arddelwyd gan y Comisiwn hefyd yn pwysleisio’r angen am wasanaethau hyblyg sy’n cymryd i ystyriaeth yr anhrefn sy’n dod i fywydau pobl ddigartref.

29. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod gan Gynlluniau Gwella Iechyd, a Chynlluniau Iechyd a Lles os cânt eu mabwysiadu, sail gref yn cynnwys gwahanol

ddisgyblaethau a maes tai.

30. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod Cynlluniau Gwella Iechyd, a Chynlluniau Iechyd a Lles os cânt eu mabwysiadu, yn cynnwys cyfeiriad at bobl ddigartref, a’r angen i’r rhain gael mynediad cyfartal at wasanaethau

iechyd cynradd priodol i’w hanghenion, gan ddweud sut y byddai eu hanghenion yn cael eu hadnabod a’u diwallu. Gellid gwneud hyn drwy benodi nyrs-ymarferydd gyda chyfrifoldeb penodol am bobl ddigartref, ond gwrthododd y Comisiwn atebion cosmetig fel cofrestru meinciau mewn parciau, a chymerodd y farn bod rhywbeth yn sylfaenol o’i le ar y systemau sydd gennym os oedd angen gwneud pethau o’r fath;

31. Dylai awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer pobl ddigartref sydd â salwch meddwl yr un math o ansawdd o ofal ag a roddir i’r rhai y mae ganddynt dai, a dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi Cyfarwyddyd addas i ddweud hyn. Dylai Awdurdodau roi gwybod, ar y cyd â Grwpiau Iechyd Lleol ac asiantaethau gwirfoddol, sut y byddant yn asesu hyn ac yn mynd i’r afael ag ef o fewn eu hardaloedd;

32. Dylai’r Gwasanaethau Iechyd sicrhau na chaiff neb ei ryddhau o’r ysbyty heb iddo fod â llety, nac yn mynd i lety a fyddai’n peryglu ei iechyd, oni bai ei fod yn dewis hyn yn bendant.

33. Fel ymateb i’r Strategaeth Gofal Cynradd, mae’r Comisiwn yn argymell yn gryf y dylid rhoi mwy o bwysigrwydd i ddarparu gofal cynradd i bobl ddigartref;

34. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau iechyd a thai ynghylch sut y dylent hyrwyddo gwell mynediad at wasanaethau iechyd i bobl ddigartref.

## Camddefnyddio Sylweddau a Digartrefedd

Edrychodd y Comisiwn ar ystod o faterion yn ymwneud â chamddefnydd cyffuriau ac alcohol a’r cysylltiad rhyngddynt a digartrefedd. Derbyniwyd tystiolaeth sylweddol a oedd yn cadarnhau bod llawer o broblemau cyffuriau ac alcohol ymhlith pobl ddigartref. Rhoddodd yr

adroddiadau hyn wybod am yr anawsterau a wynebir gan bobl ddigartref wrth gael mynediad at driniaeth addas. Trafodwyd effaith y diwygiadau diweddar i Adran 8, Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (nad yw eto mewn grym), a chytunodd y Comisiwn ar argymhelliad i geisio fframwaith cliriach, mwy hyblyg ar gyfer prosiectau yn gweithio gyda phobl sy'n defnyddio cyffuriau.

Cytunodd y Comisiwn ar set o argymhellion gyda'r nod o ddiwallu'r angen am wasanaethau i roi triniaeth a fydd yn fwy cyraeddadwy a darparu gwasanaethau tai arbenigol priodol.

35. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â grwpiau iechyd lleol ac mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a mudiadau gwirfoddol, adolygu pa mor ddigonol yw'r arian ar gyfer cynlluniau ymaddasu perthynol i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol mewn partneriaeth ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol;

36. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu arian er mwyn i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu cefnogaeth ychwanegol i bobl sydd ag aml-ddiagnosis (h.y. dau neu ragor o anawsterau sef problem iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol);

37. Dylai Heddluoedd sefydlu dull cyson o hyrwyddo cyfeirio i unedau ymaddasu cyffuriau/tai gwlyb a dylent hybu yn fwy pendant gynlluniau cyfeirio wrth arestio;

38. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r Swyddfa Gartref y dylid cael dehongliad a chyfarwyddyd ar weithredu Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, fel y'i diwygiwyd, sy'n cymryd i ystyriaeth yr angen i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ddigartref sydd hefyd yn camddefnyddio cyffuriau allu gweithio gyda hwy o fewn y llety a ddarperir ar sail lleihau niwed hyd y mae'n bosibl dan reolaeth;

39. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried a oes i'r Ddeddf Safonau Gofal unrhyw oblygiadau ar gyfer Prosiectau Camddefnydd Cyffuriau ac Alcohol sydd yn bodoli eisoes.

## Cyn-droseddwyr a Digartrefedd

Ystyriodd y Comisiwn dystiolaeth fod llawer o gyn-droseddwyr yn ddigartref, , a'r gydberthynas rhwng digartrefedd wedi i droseddwyr gael eu rhyddhau ac aildroseddu.

Gwnaed cyflwyniad i'r Comisiwn gan Ian Fox, Rheolwr Rhanbarthol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn amlinellu'r dystiolaeth ystadegol a'r pwyslais y mae'r Gwasanaeth

Prawf yn ei roi ar gael hyd i lety addas eto. Eglurodd hefyd sut y dylid rheoli risg yn ddiogel drwy gyfrwng protocolau ac asesiadau rhyngasiantaethol.

Cydnabu'r Comisiwn yr angen i gofio am ystyriaethau diogelwch cymunedol wrth gynllunio i ailsefydlu pobl ddigartref a all beri risg i'r gymuned. Pwysleisiwyd pwysigrwydd trefniadau amlasiantaethol ar gyfer asesu risg a rheoli pobl beryglus, yn enwedig troseddwyr rhyw. Pwysleisiodd y Comisiwn yr angen i landlordiaid gymryd i ystyriaeth yn llawn gyngor y gwasanaethau statudol perthnasol, yn enwedig yr heddlu a'r gwasanaeth prawf.

Cytunodd y Comisiwn ar argymhellion i wella lefel y gefnogaeth sydd ar gael i gyn-droseddwyr i'w helpu i sefydlu ffordd sefydlog o fyw mewn llety sefydlog.

40. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Wasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr a'r Gwasanaeth Carchar, i ddweud y dylid gwella'r cyngor a'r gefnogaeth bellach a ddarperir ar gyfer cyn-droseddwyr a ryddheir o'r carchar;

41. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Wasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr a'r Gwasanaeth Carchar, i ddweud y dylid darparu cyngor ar dai, cymorth a threfn ryddhau gynlluniedig i lety ar gyfer carcharorion pan dderbynnir hwy i'r carchar a chyn iddynt gael eu rhyddhau oddi yno;

42. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Wasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr, i ddweud y dylid sicrhau bod anghenion bugeiliol cyn-droseddwyr, mewn perthynas â thai, yn cael eu hadlewyrchu yn ei holl raglenni yn y gymuned;

43. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i'r Gwasanaeth Carchar, i ddweud, yn gyntaf, y dylid darparu llety pwrpasol yng Nghymru ar gyfer troseddwyr ifainc a throseddwyr benywaidd; yn ail, y dylid adolygu'r cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn carchardai yng Nghymru; ac yn drydydd, y dylid caniatáu i ragor o droseddwyr o Gymru fwrw'u tymor yn y carchar yng Nghymru, gyda'r posibilrwydd o ddarparu llety addas ar gyfer ailsefydlu yng Nghymru.

## Trais yn y Cartref a Digartrefedd

–

Ystyriodd y Comisiwn ba mor arwyddocaol yw trais yn y cartref fel ffactor o ran achosi digartrefedd. Trafododd fesurau i fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n ffoi rhag trais yn y cartref, a chroesawodd ehangu categorïau blaenoriaeth angen gyda digartrefedd statudol i gynnwys y garfan hon. Yng nghyd-destun y trafodaethau ar eithrio, cadarnhaodd yr angen i landlordiaid cymdeithasol ailgartrefu menywod lle nad oes ganddynt efallai unrhyw gysylltiadau lleol.

Adolygodd y Comisiwn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Cymreig gan Gymorth i Fenywod, a chefnogir yr argymhellion isod a oedd yn codi o'r dystiolaeth honno.

44. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol y dylent gartrefu dioddefwyr trais yn y cartref mewn unrhyw ardal, heb iddynt fod angen sefydlu cysylltiad lleol;

45. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol y dylai dioddefwyr trais yn y cartref dderbyn cefnogaeth, gan gynnwys tai fforddadwy a chyngor ar fudd-daliadau tai;

46. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori awdurdodau lleol ynghylch pwysigrwydd peidio â rhoi'r holl fenywod sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn yr un man.

## Addysg, Hyfforddiant, Cyflogaeth a Digartrefedd

Ystyriodd y Comisiwn y cysylltiadau rhwng addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r effaith y maent yn ei chael ar ddigartrefedd. Derbyniwyd adroddiadau ar y modd y mae pobl ddigartref yn aml yn cael eu dieithrio oddi wrth gyfleoedd dysgu a sut mae hyn yn gwneud iddynt golli cysylltiad yn fwy fyth â chymdeithas. Roedd yn cefnogi'n gryf fentrau i helpu pobl ddigartref i ailgysylltu â chynlluniau dysgu sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu hanghenion ac a fyddai'n ehangu eu cyfleoedd cyflogaeth. Edrychasant hefyd ar fentrau addysgol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith pobl ifainc, gan nodi'r cysylltiadau ymddangosiadol rhwng diarddel o'r ysgol a digartrefedd wedi hynny, fel rhan o batrwm ehangach o eithrio cymdeithasol.

Teimlai'r Comisiwn fod yr holl faes hwn yn hollbwysig ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl ddigartref a'u galluogi i ddechrau byw bywydau cyflawn mewn llety sefydlog.

47. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud bod angen darparu rhagor o arian er mwyn gwneud cyfleoedd cyflogaeth yn fwy hyblyg a/neu gael rhagor o waith therapiwtig;

48. Dylai ELWa sicrhau bod digon o arian ar gael i ddarparu gwasanaethau dysgu a hyfforddi sydd o fewn cyrraedd, yn hyblyg ac yn addas i anghenion pobl ddigartref;

49. Dylai Adran Addysg y Cynulliad Cenedlaethol edrych i mewn i'r cysylltiadau rhwng polisïau diarddel mewn ysgolion a digartrefedd a gwneud argymhellion priodol i Awdurdodau Addysg Lleol i ofalu bod llai o blant yn cael eu diarddel.

## Cynhaliaeth

Un o'r themâu canolog yng ngwaith y Comisiwn oedd rhoi cynhaliaeth i bobl. Daeth hyn i'r amlwg wrth edrych ar ddigartrefedd o amrywiol safbwyntiau, a thybid bod cynhaliaeth yn hollbwysig i alluogi pobl i aros yn eu llety ac i'w helpu i ymdopi â digartrefedd a symud i fyw i dai fel na fyddant yn ddigartref mwyach. Credid, gan hynny, fod cynhaliaeth yn fesur ataliol ac yn fodd i ymateb o fewn strategaethau ar ddigartrefedd.

Tynnodd y Comisiwn sylw at bwysigrwydd cael mudiadau statudol a gwirfoddol i weithio mewn partneriaeth er mwyn darparu cefnogaeth. Yn ogystal â bod yn agwedd hanfodol ar strategaethau digartrefedd, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar yr angen i ehangu gwasanaethau ailsefydlu ac am wasanaethau arbenigol a all ddiwallu anghenion unigol pobl sydd ag amryfal anghenion neu sydd wedi eu hymyleiddio yn arw.

50. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynnwys yn ei "God Cyfarwyddo i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd" y dylid, yn dilyn asesu, ddarparu cynhaliaeth briodol i bobl mewn achosion cymwys lle mae pobl ddigartref yn gwneud cais;

51. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynghori Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a

Mudiadau Gwirfoddol a chynnwys hefyd yn ei "God Cyfarwyddo i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd" yr angen i ddarparu gwasanaethau cynnal ar yr un pryd ag y darperir llety brys i bobl ddigartref i'w helpu a'u paratoi a'u cael i ymgartrefu mewn llety tymor hir addas;

52. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynnwys yn ei "God Cyfarwyddo i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd" yr angen i ddarparu cynhaliaeth ar ffurf ôl-ofal digonol i bobl sydd wedi'u hailsefydlu yn y gymuned;

53. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo modelau ar gyfer unedau bychain arbenigol gyda chynhaliaeth ar gyfer y bobl hynny sydd ag anghenion llym neu gronig;

54. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo swyddi gweithwyr ailsefydlu yn y gymuned a fyddai'n canolbwyntio ar ddatrys anawsterau ariannol, sicrhau llai o unigedd o fewn cymdeithas a chynorthwyo gyda materion cyflogaeth/dysgu.

## Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd

Edrychodd y Comisiwn ar rôl y gwasanaethau cymdeithasol statudol mewn perthynas â digartrefedd. Sylwodd nad oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol arnynt o ran gofalu am bobl ddigartref fel gr•p a bod y cyfrifoldebau statudol yn berthynol i grwpiau, fel y'u diffinnir mewn gwahanol ddeddfwriaeth, megis plant a phobl oedrannus.

Er hynny, roedd y Comisiwn o'r farn y dylai Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref trwy gydweithio â phartneriaid statudol a gwirfoddol i gynllunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion a darparu cymorth priodol.

55. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylid mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref yn eu Cynlluniau Gofal Cymdeithasol;

56. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol geisio sicrhau bod Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio mewn modd rhagweithiol gyda chydweithwyr ym maes tai, grwpiau iechyd lleol ac asiantaethau statudol a gwirfoddol i liniaru ac atal digartrefedd

drwy adnabod anghenion a darparu cymorth i blant anghenus a grwpiau hyglwyf eraill.

## Gofalwyr a Digartrefedd

Edrychodd y Comisiwn ar y darpariaethau statudol mewn perthynas ag olyniaeth tenantiaethau. Daeth i’r casgliad y dylid gwarchod gofalwr sydd heb hawl otomatig i gael tenantiaeth y t• lle roedd y person dibynnol yn byw ar ôl hwnnw, os yw wedi rhoi’r gorau i’w denantiaeth ei hun neu wedi rhoi’r gorau i’w gartref ei hun er mwyn gofalu am berson dibynnol sydd wedyn yn marw neu’n symud i ofal preswyl ac a oedd yn denant i awdurdod lleol neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

57. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gymryd i ystyriaeth y berthynas rhwng gofalwyr a digartrefedd pan fydd yn adolygu ei bolisi ar osod tai ac yn cyfrannu at adolygu deddfwriaeth daliadaeth.

## Plant a Digartrefedd

Mae dilyniant mewn gofal yn broblem i lawer o bobl ddigartref. Yn arbennig gyda phlant sy’n ddigartref, mae’r ffaith eu bod efallai yn newid cyfeiriad yn aml yn golygu bod perygl mawr y collir cysylltiad o’r herwydd. Mae’r Comisiwn wedi awgrymu y dylid penodi ymwelydd iechyd arbenigol i fod yn bwynt cyswllt parhaus rhwng plant digartref a’r gwasanaeth iechyd, yn ogystal â chymryd camau eraill megis hysbysu’r nyrsys ysgol perthnasol am blant digartref sydd dan eu gofal.

58. Mae’r Comisiwn yn argymell y dylid penodi ymwelydd iechyd arbennig i gydgysylltu’n glòs ag adrannau tai a derbyn adroddiadau wedi’u diweddaru’n gyson ar statws plant digartref a ble maent;

59. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gynnwys yn ei "God Cyfarwyddo i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd" eu bod yn cymryd i ystyriaeth, wrth ystyried plant a digartrefedd, Bapur Gorchymyn 1668, Confensiwn ar Hawliau’r Plentyn, a fabwysiadwyd

gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

## Budd-daliadau Lles

Archwiliodd y Comisiwn nifer o agweddau ar y system fudd-daliadau lles a'i heffaith ar bobl ddigartref. Codwyd rhestr o gwestiynau gyda'r Adran, a anfonodd gynrychiolydd i wneud cyflwyniad ar y polisi presennol.

Roedd y Comisiwn yn bryderus ynghylch effeithiau rhai agweddau ar y system fudd-daliadau ar bobl ddigartref, yn enwedig pobl ifainc. Roedd yr argymhellion yn anelu at liniaru tlodi a chyni ymhlith carfanau o bobl yr oedd y rheolau budd-daliadau yn camwahaniaethu yn eu herbyn.

60. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud y dylid adolygu addasrwydd y Budd-daliadau Lles sydd yn daladwy i bobl 16-25 oed;

61. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud y dylid diddymu'r Rheol Cyfyngu Rhent Ystafell Sengl;

62. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud y dylent ddiwygio eu rheolau fel y bydd taliadau o'r Gronfa Gymdeithasol yn seiliedig ar anghenion unigolion ac nid ar y math o fudd-dal a dderbynnir;

63. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud y dylent ddiwygio eu rheolau fel y gellir ystyried rhoi Grantiau Gofal Cymunedol yn lle benthyciadau i bobl ddigartref trwy'r Gronfa Gymdeithasol;

64. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i Lywodraeth y DG i ddweud y dylid ystyried adolygu faint o fudd-dal tai sy'n daladwy i fenywod hyglwyf sydd wedi bod yn y DG ers llai na 12 mis;

65. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ofyn i'r Adran dros Waith a Phensiynau ddarparu Cyfarwyddyd manwl i'w staff er mwyn bod yn fwy hyblyg ledled Cymru wrth ddehongli

deddfwriaeth a rheolau ar gyfer talu budd-daliadau i bobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gydnabod anghenion y sawl sy'n hawlio a chynnwys budd-daliadau mandadol a dewisol e.e. y Gronfa Gymdeithasol;

66. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud sylwadau i'r Adran dros Waith a Phensiynau er mwyn hyrwyddo gwell cyd-drefnu rhwng yr adran a mudiadau gwirfoddol sy'n helpu pobl ddigartref;

67. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn gwneud taliadau mewn perthynas ag achosion o gynii ledled Cymru.

## Digartrefedd mewn Ardaloedd Gwledig

Trafododd y Comisiwn yr anawsterau arbennig a wynebir gan bobl ddigarterf mewn ardaloedd gwledig, mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol. Cydnabu'r Comisiwn y problemau a wynebid wrth ddarparu a chael mynediad at yr ystod o wasanaethau yr oedd eu hangen mewn ardaloedd lle roedd y boblogaeth a'r seilwaith gwasanaethau yn wasgaredig iawn.

68. Deallai'r Comisiwn y byddai sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn broblemus, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau arbenigol, ond dymunai weld y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ffocws cryfach ar y mater hwn drwy gyfrwng ymchwil a thrwy gynorthwyo awdurdodau lleol;

69. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod y costau ychwanegol a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau a chyngor mewn ardaloedd gwledig, a dylai roi ystyriaeth ffafriol i Strategaethau Digartrefedd Lleol yr awdurdodau pan fyddant yn gofyn am arian wrth geisio datrys problemau mynediad;

70. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried effaith costau cludiant ar allu pobl ddigartref i gael mynediad at wasanaethau tai a chynghori.

## Amrywiol

71. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod ymdrechion mudiadau gwirfoddol o ran creu corff cynrychioliadol o aelodau i weithio ym maes digartrefedd yng Nghymru, i gynrychioli barn y mudiadau hyn;

72. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol edrych ar ffyrdd o roi rhagor o bwyslais ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddigartrefedd yn y gymuned gyfan;

73. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu'r prosiectau peilot er mwyn hyrwyddo Cynlluniau Tai Personol i bobl ddigartref ac asesu pam mor hyfyw ydynt ac i ba raddau y gellir eu cymhwyso ledled Cymru.

## Ariannu

Ystyriodd y Comisiwn gwestiwn ariannu yng nghyd-destun yr argymhellion yr oedd yn eu llunio ar draws ystod y meysydd polisi a adlewyrchir yn yr adroddiad hwn. Sylweddolai fod goblygiadau ariannol sylweddol yn codi o'r argymhellion hyn, ac y byddai angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn gallu rhoi llawer ohonynt ar waith yn llawn. Dim ond mewn perthynas â gweithgareddau a ddeuai dan gyllidebau tai yr ystyriodd y Comisiwn fater ariannu, ac fe wnaeth yr argymhellion a ganlyn.

74. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu arian i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt hwyluso datblygiad strategaethau lleol ar ddigartrefedd;

75. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu arian ychwanegol ar gyfer mudiadau gwirfoddol, dan ddarpariaethau Adran 180, Deddf Tai 1996, i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth a ddaw i'r amlwg pan roddir ar waith strategaethau lleol awdurdodau lleol ar ddigartrefedd;

76. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu arian cyfalaf ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, dan ddarpariaethau Adran 126, Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, er mwyn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a

ddaw i'r amlwg pan roddir ar waith strategaethau lleol awdurdodau lleol ar ddigartrefedd, a ddylai gymryd i ystyriaeth unrhyw oblygiadau refeniw;

77. Mae’r Comisiwn yn cydnabod y newid mawr yn y modd yr ariennir Tai Cefnogol, a fydd yn digwydd o ganlyniad i roi Cefnogi Pobl ar waith, ac mae’n annog y Cynulliad Cenedlaethol i fonitro’r effaith er mwyn sicrhau na welir unrhyw ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir;

78. Mae’r Comisiwn yn croesawu’r cynnydd yn y Tai Cefnogol a gynigir, ond unwaith eto mae’n annog y Cynulliad Cenedlaethol i barhau i adolygu’r anghenion cyfan a neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer cefnogaeth os enwir y rhain fel rhan o’r Strategaethau Lleol ar Ddigartrefedd;

79. Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau, lle bo prosiectau a ariennir gan Adran 180, Deddf Tai 1996 yn ymwneud â chynlluniau tai cefnogol, y dylai’r trefniadau ariannol fod yn gyson â’r rhai ar gyfer y Grant Refeniw Tai Cefnogol, h.y. yn seiliedig ar ddarparu gwasanaeth y cytunir arno ac yn amodol ar adolygiadau bob 5 mlynedd.

## Ymchwil

Derbyniodd y Comisiwn adroddiad gan Dr Elaine Mullan a oedd yn adolygu faint o ymchwil a gafwyd i ddigartrefedd. Goleuwyd trafodaethau’r Comisiwn gan ymchwil a gyhoeddwyd ac mae ei ganfyddiadau i’w gweld yn yr adroddiad hwn. Er hynny, sylwodd y Comisiwn fod diffyg ymchwil fanwl ar yr achosion y tu ôl i ddigartrefedd ac ar effeithiolrwydd mesurau i fynd i’r afael ag ef. Roedd yr argymhellion a fabwysiadwyd ganddo yn cynnwys ystod eang o feysydd lle roedd y Comisiwn o’r farn bod angen sail gryfach o dystiolaeth a dealltwriaeth er mwyn goleuo polisi at y dyfodol. Sylweddolai’r Comisiwn fod angen peth blaenoriaethu, ac felly gosododd yr argymhellion ar gyfer ymchwil mewn categorïau, sef blaenoriaeth gyntaf ac ail flaenoriaeth.

Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ymgymryd ag ymchwil i ddigartrefedd yn unol â’r blaenoriaethau a ganlyn:

**Blaenoriaeth Gyntaf**

80. Mae angen rhagor o ymchwil hydredol er mwyn olrhain llwybrau drwy ddigartrefedd; hynny yw, i gysylltu'r ffyrdd y mae pobl yn mynd yn ddigartref â ffyrdd penodol o symud tuag at fod â chartref eto;

81. Mae angen i asiantaethau statudol ac anstatudol gasglu gwybodaeth ynghylch faint o bobl, a siarad mewn termau cymharol, sy'n wynebu digartrefedd yn y tymor byr, yn ysbeidiol ac yn y tymor hir;

82. Mae angen dilyn trefn safonol, systematig (e.e. ffurflen gyffredin ar gyfer monitro) er mwyn cofnodi'r niferoedd sy'n mynd at asiantaethau anstatudol ledled Cymru;

83. Mae angen rhagor o waith arfarnu ar waith ataliol (heblaw gwasanaethau cynghori ynghylch tai) a gwasanaethau/cynlluniau arbenigol, penodol (e.e. gwasanaethau ailsefydlu a chynhaliaeth);

84. Mae angen edrych i mewn ar frys i weld beth mwy y gellir ei wneud i rwystro pobl sy'n gadael gofal, carchardai a sefydliadau eraill rhag mynd yn ddigartref;

85. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu, mewn cydweithrediad â darparwyr gwasanaethau, ymchwil i'r math mwyaf priodol o lety dros dro i bobl 16-25 oed;

**Ail Flaenoriaeth**

86. Mae angen adolygu'r ymchwil er mwyn gwybod beth yw'r ffordd orau o ymgynghori â phobl ddigartref ynghylch y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, y bylchau yn y ddarpariaeth, a strategaethau i fynd i'r afael â digartrefedd;

87. Mae angen ymchwil sy'n ymdrin yn fwy penodol ag ardaloedd gwledig;

88. Mae angen sefydlu cronfa ddata o wasanaethau arbenigol a ddarperir (yn wirfoddol ac yn statudol) ledled Cymru;

89. Mae angen adolygu'r ymchwil sy'n edrych ar beth sy'n rhwystro pobl rhag cael at y gwasanaethau sydd ar gael, a fyddai'n pwyntio at anghenion penodol, neu'r angen am weithredu mewn modd penodol drwy Gymru;

90. Mae angen sefydlu cronfa ddata o ymchwil i ddigartrefedd, gwaith arfarnu (e.e. strategaethau, prosiectau) a monitro (e.e. y defnydd o wasanaethau) ledled Cymru;

91. Mae angen i'r Gwasanaethau Iechyd wneud dadansoddiad cost-budd o gost cynnal rhywun sydd â phroblemau iechyd yn y gymuned yn hytrach nag mewn sefydliad.